

Cofnod Cyfarfod Awdurdod S4C
14 Mawrth 2013, S4C, Llanisien, Caerdydd

Cyfarfod Rhif 364

| | | |
|------------|----------------------|--|
| Presennol: | Huw Jones | (Cadeirydd) |
| | John Davies | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Carol Bell | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Aled Eirug | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Dyfrig Jones | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Glenda Jones | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Marian Wyn Jones | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Rheon Tomos | (Aelod o'r Awdurdod) |
| | Elan Closs Stephens | (Aelod o'r Awdurdod) |
| Staff S4C: | Ian Jones | (Prif Weithredwr) |
| | Garfield Lloyd Lewis | (Cyfarwyddwr Cyfathrebu) |
| | Elin Morris | (Cyfarwyddwr Polisi Corfforaethol a Masnachol) |
| | Kathryn Morris | (Cyfarwyddwr Cyllid) |
| | Dafydd Rhys | (Cyfarwyddwr Cynnwys) |
| | Phil Williams | (Ysgrifennydd yr Awdurdod) |
| | Sarah-Jane Pritchard | (Cynorthwy-ydd i Ysgrifennydd yr Awdurdod) |

Sylwadau agoriadol

Croesawodd y Cadeirydd bawb oedd yn bresennol i'r cyfarfod. Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

1. Datganiad o ddiddordeb

Gofynnodd y Cadeirydd i unrhyw aelod oedd â diddordeb ym musnes y cyfarfod iddynt ddatgan eu diddordeb. Datganodd y Cadeirydd bod ei fab yn gweithio fel Ymchwilydd i gwmni Aden.

Nodwyd bod gan nifer o aelodau ddatganiadau parhaol sydd wedi eu nodi yng nghofrestr diddordebau'r Aelodau ac nad oes angen datgan y rhain yn unigol ym mhob cyfarfod onid ydynt yn uniongyrchol berthnasol i bwnc sy'n cael ei drafod.

Gweler y Gofrestr Diddordebau yn adran yr Awdurdod ar wefan S4C ar gyfer datganiadau cyffredinol.

2. Cofnodion cyfarfod 363

2.1 Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod 363.

Cymeradwyodd yr Awdurdod y cofnodion.

2.2 Materion yn codi o gofnodion rhif 363

2.2.1 Nodwyd y canlynol:

2.2.2 Ail-strwythuro – Fforwm

Cafwyd trafodaeth am y cyfarfod staff misol, sef "Fforwm". Ar ôl y cyfarfod cyntaf

derbyniwyd adborth fod y cyfarfod yn rhy ffurfiol. Symudwyd yr ail gyfarfod i leoliad llai ffurfiol a derbyniwyd adborth cadarnhaol.

2.2.3 **Cyflwyno gwybodaeth am gyfarfodydd yr Awdurdod**

[**Crynodeb:** Trafodwyd dulliau posibl i gyflwyno gwybodaeth am gyfarfodydd yr Awdurdod. Gobeithir sefydlu trefn newydd i ddisodli'r Bwletinau yn y dyfodol.]

2.2.4 **Ansawdd ¾ ar Freeview**

Nodwyd fod S4C wedi ei ddarledu mewn ansawdd ¾ ar Sky yn ogystal â Freeview yn ddiweddar, ond bellach bod S4C yn cael ei ddarledu ar ansawdd llawn ar blatfform Sky.

2.2.5 **Yn eich Cymuned**

Eglurwyd bod y problemau technegol yn ardal Y Bala wedi eu datrys yn ddiweddar.

2.2.6 **Isdeitlau**

Eglurodd IHJ y bydd yr arbrawf i ddangos arwydd ar gyfer isdeitlau yn gyson ar ddechrau'r rhaglen a chyn ac ar ôl bob egwyl yn dechrau yn fuan.

2.2.7 **Bwrdd Masnachol**

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth am y strategaeth fasnachol a'r angen i sicrhau gweledigaeth glir ynglŷn â'r berthynas rhwng prosiectau masnachol ac amcanion y gwasanaeth cyhoeddus. Penderfynwyd trefnu cyflwyniad i'r Awdurdod gan y Pennaeth Datblygu Masnachol newydd ym mis Mai.]

3. **Diwrnod i Drafod (10 Ionawr 2013)**

[**Crynodeb:** Lluniwyd rhestr o bynciau i'w drafod ymhellach gan yr Awdurdod yn y dyfodol.]

4. **Adroddiad y Cadeirydd**

4.1 **Cyfarfod â Huw Lewis AC, Gweinidog Treftadaeth**

Pwysleisiodd y Cadeirydd natur adeiladol y cyfarfod rhyngddo ef, y Prif Weithredwr a'r Gweinidog.

4.2 **Adborth o'r cinio gyda staff**

[**Crynodeb:** Cafwyd trafodaeth ar yr adborth gan staff a fynychodd y cinio fel cynrychiolwyr staff. Cymeradwyodd yr Awdurdod eu hawgrymiadau a'r cynnig i symud lleoliad y cyfarfod.]

4.3 **Digwyddiadau ar y cyd gyda'r BBC**

Eglurwyd bod swyddogion Cyngor Cynulleidfa'r BBC yng Nghymru wedi estyn gwahoddiad i S4C rannu dau ddigwyddiad gyda nhw i gyd-fynd â chynhadledd flynyddol Sefydliad y Merched Cymru ym mis Ebrill. Byddai digwyddiad dros frecwest gyda chynrychiolwyr Sefydliad y Merched Cymru ar 17 Ebrill yn Venue Cymru, Llandudno a digwyddiad nos Iau yn Llanrwst gyda thrigolion Dyffryn

Conwy. Casglu adborth am ddarlledu yn Gymraeg yn gyffredinol fydd diben y digwyddiadau.

Croesawyd y gwahoddiad gan yr Awdurdod gan gyfeirio at ddechrau'r bartneriaeth rhwng S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC ym mis Ebrill a nodwyd y byddai'r digwyddiadau yn dangos y ddau gorff yn gweithio mewn partneriaeth.

Cymeradwywyd derbyn y gwahoddiad.

4.4 **Adolygiad o berfformiad rhaglenni'r BBC yn 2012 o dan y Bartneriaeth Strategol.**

Mae'n ofynnol i S4C ddarparu sylwadau ar gyfraniad rhaglenni BBC Cymru i wasanaeth S4C, i'w ystyried fel rhan o asesiad perfformiad blynyddol Ymddiriedolaeth y BBC. Roedd hyn yn fater gwahanol i adolygiad yr Ymddiriedolaeth a'r Awdurdod o wasanaeth S4C o dan y Cytundeb Gweithredu. Trafodwyd y berthynas rhwng y ddwy broses adrodd â'i gilydd, a'r berthynas ag Adroddiad Blynyddol S4C ei hun, a pha fath o ymateb y dylid ei gynnig. Penderfynwyd y dylai'r Ysgrifennydd gyflwyno drafft i'w gymeradwyo gan y Pwyllgor Cynnwys.

5. **Adroddiad y Prif Weithredwr**

5.1 Cyflwynodd IHJ ei adroddiad ysgrifenedig.

5.2 **Mesuriadau Perfformiad**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd IHJ ddiweddariad ar ein mesuriadau perfformiad gyda'r bwriad o sicrhau cysondeb â'r ffigurau ar gyfer Ymddiriedolaeth y BBC a hefyd defnyddio mesuriadau sydd, ym marn yr Awdurdod, yn rhoi darlun cywir a phriodol o berfformiad y gwasanaeth. Caiff y mesuriadau eu defnyddio yn yr Adroddiad Blynyddol maes o law.]

5.3 **Cyllid DCMS**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd IHJ ddiweddariad am y cyfarfod a gynhaliwyd gyda swyddogion y DCMS. Nododd y bydd angen cydsyniad y Trysorlys ac, o bosibl, yr NAO cyn ffurfioli'r newid i adrodd ar flwyddyn ariannol 15 mis er mwyn galluogi S4C i symud i adrodd ar y flwyddyn ariannol i'r dyfodol.]

5.4 **Ansawdd ¾**

Rhoddodd IHJ ddiweddariad ar fater ansawdd llun ¾ gwasanaeth S4C ar Freeview. Cynhaliwyd cyfarfod gydag Ofcom i drafod y mater a nodwyd bod gofynion technegol Ofcom yn golygu bod angen i S4C gael ei ddarlledu mewn ansawdd llawn. Nodwyd y byddai D3&4 yn uwchraddio technoleg y plethiad ym mis Gorffennaf a bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal gyda D3&4 er mwyn ceisio datrys y mater unwaith y bydd eu prif weithredwr newydd yn cychwyn ar ei swydd o fewn y misoedd nesaf.

5.5 **Rhaglenni**

Cafwyd trafodaeth am ymateb i raglenni S4C ar Trydar a chyfeiriwyd at nifer o enghreifftiau oedd yn tanlinellu pwysigrwydd ymwneud â chynnwys S4C ar Trydar.

Nodwyd hefyd fod angen sicrhau nad yw S4C yn gorddibynnu ar ymateb ar gyfryngau cymdeithasol.

5.6 Materion yn ymwneud â'r sector gynhyrchu.

5.6.1 Derbyn rhaglenni trwy gyfrwng ffeiliau – Diweddariad

Rhoddodd IHJ ddiweddariad ar y gwaith ar gyfer derbyn rhaglenni gan gyflenwyr ar ffeil.

5.6.2 Adroddiad Fegan

[**Crynodeb:** Trafododd yr Aelodau'r alwad ar S4C i ryddhau Adroddiad Fegan. Gan ei fod yn seiliedig ar wybodaeth fasnachol a roddwyd yn gyfrinachol bydd rhaid i'r Awdurdod ystyried yn ofalus ynghylch priodoldeb cyhoeddi ei gasgliadau.]

5.7 BBC

Nodwyd bod y trafodaethau yn ymwneud â phresenoldeb S4C ar iPlayer yn parhau a bod cyflwyniad gweithrediaeth y BBC i'r Ymddiriedolaeth ar y mater wedi ei ohirio tan fis Mai.

5.8 Y mis diwethaf

Rhoddodd IHJ ddiweddariad am y sesiwn adeiladol a gynhaliwyd gydag aelodau etholedig.

5.9 Clic

Nodwyd bod y gwaith ar gyfer datblygu gwasanaeth Clic yn parhau. Cymeradwywyd yr awgrym i drefnu cyflwyniad i'r Awdurdod ym mis Mai am y newidiadau arfaethedig.

6. Ystyried Anghenion Gwybodaeth yr Awdurdod

6.1 Cafwyd trafodaeth am anghenion gwybodaeth yr Awdurdod mewn perthynas â pherfformiad rhaglenni. Pwysleisiwyd yr angen i'r Aelodau dderbyn gwybodaeth ddigonol er mwyn eu galluogi i gyflawni eu swyddogaeth yn effeithiol.

[**Crynodeb:** Roedd cytundeb na ddylai unrhyw ofynion gwybodaeth ychwanegu yn ddiangen at bwysau gwaith swyddogion. Pwysleisiwyd yr angen i sicrhau dealltwriaeth gywir o arwyddocâd y gwahanol ddogfennau allai fod dan ystyriaeth.]

Penderfynwyd mai'r ffordd hwylusaf fyddai i gylchredeg y dogfennau Ffigurau Dros Nos, Cyrhaeddiad Unigryw ac Ugain Uchaf wythnosol i'r Aelodau ac y gellid trefnu sesiwn o gyflwyniad byr gan y Pennaeth Ymchwil i ddilyn y cyfarfod hwn.

6.2 Penderfynwyd yn ogystal y dylai'r Pwyllgor Cynnwys ystyried anghenion gwybodaeth pellach yr Awdurdod yn ymwneud â pherfformiad rhaglenni.

6.3 Cafwyd trafodaeth am anghenion gwybodaeth yr Awdurdod yng nghyd-destun argymhellion Shortridge. Er bod fformat a chynnwys y papurau wedi newid ers haf 2010, nid ydynt wedi eu cymeradwyo yn ffurfiol.

6.4 Cymeradwywyd fformat a chynnwys papurau'r Awdurdod a phenderfynwyd ychwanegu "ystyried anghenion gwybodaeth yr Awdurdod" i raglen waith yr

Awdurdod yn flynyddol.

7. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cynnwys**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd DRh ei adroddiad ysgrifenedig a thrafodwyd sawl genre. Nodwyd y cynnydd rheolaidd yn ddiweddar i wylio Stwnsh a chafwyd trafodaeth am gost rhaglenni adloniant. Nodwyd bod yna ganfyddiad clir o ymateb cyhoeddus cadarnhaol i'r arlwy diweddar. Mynegwyd gwerthfawrogiad yr Awdurdod o ymdrechion DRh a'i dîm, y cwmnïau cynhyrchu a thalentau eraill oedd wedi creu'r cynnwys.]

8. **Adroddiad Ymchwil Misol**

Nodwyd yr Adroddiad Ymchwil Misol.

9. **Adroddiad y Cyfarwyddwr Cyfathrebu**

9.1 Cyflwynodd GLL ei adroddiad ysgrifenedig a chyfeiriodd at y pynciau isod:

9.2 **Ymgyrchoedd Marchnata**

Cafwyd diweddariad am yr ymgyrchoedd hyrwyddo. Cafwyd dangosiad arbennig o **Gerallt** yng Nghaernarfon. Hyrwyddwyd y rhaglen mewn sawl ffordd gan gynnwys trwy dargedu gwylwyr penodol, megis y rhai oedd wedi ymateb i Dymor Tryweryn, gyda chlipiau ar rwydweithiau cymdeithasol.

9.3 **Yn eich cymuned**

Cynhaliwyd cyfarfod gyda grŵp o bobl leol yn Y Bala er mwyn trafod ymgyrch hyrwyddo arfaethedig yn yr ardal. Derbyniwyd adborth yn awgrymu y byddai'n well gan y bobl leol pe byddai ymgyrch S4C yn cyd-fynd gyda digwyddiadau eraill sydd yn digwydd yn yr ardal dros yr un cyfnod.

9.4 **Zeffa**

Nodwyd bod Cwmni Zeffa Cyf. wedi ennill y broses tendr ar gyfer gwasanaethau prynu gofod cyfryngau, ac wedi cytuno cytundeb am y tair blynedd nesaf.

9.5 **Partneriaethau**

Nodwyd y nifer sylweddol o gyfarfodydd sydd yn cael eu cynnal gyda phartneriaid a darpar bartneriaid.

10. **Adroddiad Ariannol**

[**Crynodeb:** Cyflwynodd KM yr adroddiad ariannol.]

11. **Adroddiad o'r Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg**

Nodwyd yr adroddiad ysgrifenedig o gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Rheoli Risg.

12. **Adroddiad Cwynion a Chydymffurfiaeth a Gwifren Gwylwyr**

Cyflwynodd PW yr adroddiad cwynion. Nodwyd nad oedd unrhyw gwynion newydd ar y rhestr y mis hwn.

Nodwyd adroddiad y Wifren.

13. **Unrhyw fater arall**

Ni thrafodwyd unrhyw fater arall.

14. **Pwnc trafod – Cadwyn Cyflenwi S4C**

[Crynodeb: Er mwyn caniatáu amser digonol i ystyried un pwnc yn fanwl cytunodd yr Awdurdod yn ddiweddar i glustnodi amser penodol ar yr agenda ar gyfer sesiwn drafod. Dewiswyd Cadwyn Gyflenwi S4C fel pwnc y tro hwn a chynhaliwyd trafodaeth estynedig ar y mater.]

15. **Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 18 Ebrill 2013 yng Nghaerdydd.